Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

**Gwybodaeth i Gleifion**
**Pwy yw'r tîm Sglerosis Ymledol?**

**Adran Niwroleg**

---

Os oes gennych sglerosis ymledol, bydd yn ddefnyddiol ichi gael gwybod am y gwasanaeth y mae ein tîm yn ei gynnig i bob claf sy'n dioddef o sglerosis ymledol.

## Pa wasanaeth y mae'r tîm yn ei gynnig?

Rydym yn ceisio cynnig i chi a'ch teulu'r hyn fydd angen arnoch o ran cefnogaeth, addysg, cyngor a gwybodaeth.  Rydym yn cynnig clinigau arbenigol yn Ysbyty Brenhinol Gwent ac yn Ysbyty Nevill Hall, yn ogystal â chlinigau dan arweiniad nyrs yn Ysbyty Brenhinol Gwent, Ysbyty Nevill Hall, Ysbyty Sirol ac Ysbyty Cas-Gwent.

Mae'r gwasanaeth ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod oriau swyddfa.  Oherwydd ymrwymiadau ein gwasanaeth, gall fod yn anodd cysylltu â ni'n uniongyrchol.  Fodd bynnag, mae peiriant ateb ffôn 24 awr ar gael pe dymunech adael neges i ni.  Byddwn yn ceisio ateb eich galwad cyn gynted â phosibl.

Mae ein haelodau tîm yn gweithio yn agos iawn gyda'i gilydd ond mae rôl arbennig yn ein tîm i bob disgyblaeth.

## Pa wasanaethau y mae'r aelodau tîm yn eu cynnig?

### Niwrolegwyr Ymgynghorol

- Gwneud diagnosis cychwynnol
- Darparu rheolaeth feddygol barhaus o'r symptomau
- Gwneud penderfyniadau ar y cyd â'r claf ynglŷn â thriniaeth bosibl

## Nyrsys Arbenigol

- Cynnig cefnogaeth a gwybodaeth gyffredinol ar Sglerosis Ymledol
- Rhoi cyngor ar feddyginiaethau a rheoli symptomau
- Cyflawni triniaethau arbenigol a darparu hyfforddiant amdanynt
- Addysgu a rhoi cyngor i weithwyr proffesiynol eraill

## Ffisiotherapyddion

- Asesu swyddogaeth gorfforol/rhoi cyngor ar ymarfer corff
- Rhoi cyngor ar gymhorthion ac orthoteg
- Rhoi cyngor ar symud a chodi a chario
- Cynnig cyngor penodol ynglŷn â symptomau
- Rhoi cyngor ar driniaeth a thrafod lleoliad addas ar ei chyfer

## Therapyddion Galwedigaethol

- Asesu gweithgareddau bywyd bob dydd a rhoi cyngor a chyfarpar i'ch helpu i aros yn annibynnol
- Asesiadau eistedd arbenigol ac asesiadau sylfaenol ar gyfer cadeiriau olwyn
- Rhoi cyngor ynglŷn â mân addasiadau i gynnal annibyniaeth gartref
- Rheoli blinder a'r cyflwr

## Nyrs Ymataliaeth

- Asesiad arbenigol ar gyfer ymataliaeth
- Cynnig cyngor a hyfforddiant ar gyfer problemau ymataliaeth penodol

## Seicolegydd Clinigol

- Asesu lles emosiynol cleifion
- Cynnig arweiniad a chefnogaeth ar sut i ymdopi gyda heriau emosiynol a all godi gyda Sglerosis Ymledol
- Asesu gallu cofio ac ystyried y cleifion a chynnig strategaethau i helpu gydag unrhyw anawsterau arbennig

## Pryd dylwn i gysylltu â'r Tîm Sglerosis Ymledol?

- Pan fydd gennych gwestiwn am eich sglerosis ymledol neu'r driniaeth sydd ar gael i chi
- Pan fydd pryderon gennych ynghylch unrhyw symptomau y cewch brofiad ohonynt
- Pan fyddwch yn meddwl eich bod yn cael pwl o'r salwch
- Pan fyddwch yn ei chael hi'n anodd ymdopi gydag unrhyw agwedd ar eich cyflwr Sglerosis Ymledol
- Pan fydd angen cyngor arnoch o ran meddyginiaeth
- Pan fyddwch angen unrhyw fath o wybodaeth am Sglerosis Ymledol

## I gael rhagor o gyngor a gwybodaeth cysylltwch â:

Nyrsys Arbenigol Sglerosis Ymledol
Emma Horton, Sarah Palmer, Samantha Jones

Ysgrifennydd y Tîm Sglerosis Ymledol
Tracey Taylor

**Rhif ffôn: 01633 656142 / 01633 656128**

**Cyfeiriad e-bost - multiplesclerosisteam.abb@wales.nhs.uk**

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/
This document is available in English".**